**COFNODION AR GYFER CYFARFOD MISOL CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL A GYNHALIWYD AR NOS LUN 14 EBRILL 2014 AM 7.15PM**

**Yn bresennol:** Cynghorwyr Mrs Philippa Davies, Mr Andrew Howell, Mr Terry Griffiths, Mr Wyn Evans, Mr Douglas Davies, Ms Beth Davies, Cadeirydd Mr Tom Cowcher, Mrs Carolyn Reed-Rees (yn cyflawni rôl y Clerc yn absenoldeb Nia Edwards – o ganlyniad i salwch) a Chynghorwyr Sir Peter Davies a Peter Evans

**Ymweliad**
Roedd Adrian Nichols o'r Gwasanaeth Tân yn bresennol er mwyn sôn am y gwasanaethau a gynigir gan y Gwasanaeth Tân ac er mwyn annog gweithgarwch recriwtio lleol. Soniodd hefyd am Ddiwrnod Agored Gorsaf Llandysul, a gynhelir cyn bo hir ar 3 Mai 2014 (12 canol dydd tan 4pm), lle y byddant yn dathlu 50 mlynedd ers i Orsaf Llandysul fod yn ei lleoliad presennol.

**Personol:**
Hysbyswyd aelodau'r cyngor gan y Cadeirydd o'r ffaith bod y **Clerc** wedi bod yn yr ysbyty ar ôl torri ei choes a phenderfynwyd anfon carden er mwyn dymuno gwellhad buan iddi. Yn ogystal, cyfeiriodd y Cadeirydd at absenoldeb ein cyfieithydd, **Llinos**, a oedd ar fin rhoi genedigaeth i'w hail blentyn. Bydd y Cadeirydd yn gwneud ymholiadau a bydd y Clerc yn trefnu bod carden yn cael ei hanfon pan fo hynny'n briodol.
Cafwyd **llythyr ymddiswyddo** gan **Gyng Mrs Rhiannon Ainsworth**, nad oedd wedi gallu mynychu nifer o gyfarfodydd dros y misoedd diwethaf o ganlyniad i faterion iechyd teuluol.

1.**Ymddiheuriadau:**
Cynghorwyr Aled Jones, Keith Evans ac Eileen Curry

2.**Datgelu Buddiannau:**
Cyng Tom Cowcher – Gŵyl Wledig; Cyng Peter Evans – Gŵyl Wledig a'r Ganolfan Ddŵr; Cyng Beth Davies – Gŵyl Wledig.

3.**Cofnodion:**
Derbyniwyd bod Cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 13 Mawrth yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd, ac eithrio dyddiad y cyfarfod, a ddiwygiwyd, ac fe'i lofnodwyd gan y Cadeirydd.

**4.Materion yn Codi:**
**Ymweliad gan yr Heddlu/Ymddygiad Gwrthgymdeithasol** – cyfeiriodd Cyng Wyn Evans at y mater yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn/y tu allan i'r clwb a'r ffaith bod Cyng Peter Evans wedi nodi yn y wasg na fyddai'n anfon ei blant ef i'r clwb ieuenctid. Atebodd Cyng Peter Evans trwy hysbysu'r cyngor ei fod wedi siarad gyda Mr Parkin, sy'n rhedeg y clwb ieuenctid, a oedd wedi ei gywiro ynghylch rhai materion. Cadarnhaodd Cyng Andrew Howell na chafwyd unrhyw gwynion ynghylch y clwb ieuenctid ers cryn amser.
**Anfonebau (ii) Abacus** – nododd Cyng Doug Davies nad yw'r sawl sy'n glanhau'r

lloches bysiau yng Nghapel Dewi wedi cael eu talu ers tua blwyddyn. Cytunwyd mai camgymeriad oedd hyn yn ôl pob tebyg gan nad oedd unrhyw gofnod ar bapur (dim anfoneb(au)) yn bodoli a bod Clerc newydd wedi cychwyn. Bydd Cyng Carolyn Reed-Rees yn gofyn i'r Clerc ymchwilio i'r mater ac i adrodd yn ôl.
**Anfonebau (iii) Derwen Lighting** – Bydd y gwaith o brofi ac archwilio gosodiadau ac ati yn cael ei gynnwys ar Agenda'r cyfarfod a gynhelir fis nesaf.

**5.Rhoddion:**

**Canolfan Ddŵr Llandysul** – Penderfynwyd gofyn am eglurhad ynghylch yr hyn y mae eu llythyr sy'n ddyddiedig 18 Mawrth 2014 yn gofyn amdano (gan gofio eu cais blaenorol am £10,000, dyddiedig 14 Rhagfyr 2013), gan nad yw eu cais yn nodi hynny mewn ffordd eglur. Gofynnir hefyd am gynllun busnes a gofynnir iddynt wneud cais i gynghorau eraill am arian hefyd.
**Ffair Wledig Llandysul a Phont Tyweli Ymlaen Cyf** – Penderfynwyd nodi ein bod yn fodlon cyfrannu'r swm y gofynnwyd amdano mewn egwyddor (cynigiodd Cyng Wyn Evans y swm o £5,000, eiliwyd y cynnig gan Gyng Philippa Davies ac fe'i dderbyniwyd) ond hoffem weld cyfrifon y flwyddyn flaenorol a byddem yn disgwyl gweld tudalen o hysbyseb o ganlyniad i gyfraniad mawr y cyngor. Bydd y mater hwn yn cael ei gynnwys ar agenda y cyfarfod a gynhelir fis nesaf.
**Ras yr Iaith** – Penderfynwyd gofyn am gopi o'u mantolen a chynigiodd Cyng Andrew Howell y dylid rhoi rhodd o £50, eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng Wyn Evans ac fe'i dderbyniwyd.

**Cydnabod Derbyn Rhoddion:**
RABI £100.00; Capel Undodaidd Pantydefaid Pren-gwyn £500.00;
**Adborth yn dilyn Penwythnos Garddio Llandysul, 21-23 Chwefror 2014:**
Cafwyd gwybodaeth am y sawl a wnaeth ymweld â'r Penwythnos Garddio - faint o amser yr oeddent wedi ei dreulio yn Llandysul, y mannau eraill y gwnaethant ymweld â nhw ac ati, a darparwyd Taflen Incwm/Gwariant.

6.**Gohebiaeth**

Mae negeseuon e-bost gan y Clerc, yn unol â'r rhestr sydd ynghlwm, wedi cael eu hanfon at yr aelodau rhwng y cyfarfod diwethaf a'r cyfarfod hwn.
(I) Cyngor Sir Ceredigion – (a) dosbarthwyd Hysbysiadau o Etholiad Seneddol Ewropeaidd i'w harddangos ar hysbysfyrddau amrywiol ar draws Llandysul;
(b) Darllenwyd y dyddiadau Casglu Ysbwriel dros Ŵyl y Banc y Pasg i'r aelodau; (c) Lansiad Ardaloedd Chwarae Di-fwg – penderfynwyd gofyn am 4 arwydd (2 ar gyfer y lle chwarae yn y parc a 2 ar gyfer Y Ffawydd), a ddarparir yn rhad ac am ddim; (d) Cynllun Gwella – fe'i rhoddwyd i Gyng Andrew Howell a bydd yn adrodd yn ôl amdano yn ystod y cyfarfod nesaf; (e) Fforwm 50+ – i'w anfon ymlaen at y Clwb Croeso gan Gyng Tom Cowcher.
(ii) Un Llais Cymru – Cyfarfod Ardal Ceredigion – cadarnhaodd Cyng Andrew Howell y bydd yn mynychu ac y bydd yn adrodd yn ôl yn ystod y cyfarfod nesaf.
(iii) Yswiriant Zurich – Cafwyd dogfennau polisi a chadarnhaodd yr aelodau bod yr eitemau a restrwyd yn gywir. Bydd Cyng Carolyn Reed-Rees yn cadarnhau gyda'r Clerc a yw (a) Lloches Bysiau Bwlch-y-groes wedi cael ei ychwanegu i'r polisi, a (b) bod bin graean wedi cael ei ddarparu yn lle'r hen un ym Maesymeillion.

(iv) Llywodraeth Cymru – Cafwyd gohebiaeth am Ymgynghoriad am y cam Arfaethedig o Ddirymu ac Ail-lunio Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005, ac fe'i nodwyd.
(v) Cafwyd taflen Glasdon ac fe'i nodwyd.
(vi) Western Power – Tystysgrif Cyflenwad heb Fesurydd ynghylch Goleuadau Nadolig 2013-2014 – cafwyd gohebiaeth ac fe'i nodwyd.
(vii) Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru – Hysbysiad yn ymwneud â Chynllun Gwella Blynyddol 2014-2015 – cafwyd a nodwyd.
(viii) Radio Beca – Penderfynwyd anfon ffurflen gais gan eu bod yn gofyn am rodd. Bydd Cyng Carolyn Reed-Rees yn gofyn i'r Clerc gadarnhau gydag Un Llais Cymru a oes modd i ni fod yn aelod llawn o'r cwmni cydweithredol hwn (neu unrhyw gwmni arall o'r fath).
(ix) Cynllun Gwella Llywodraeth Cymru – cafwyd a nodwyd.
(x) BDO – Cafwyd Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn yn Gorffen ar 31 Mawrth 2014. Bydd hon yn cael ei llenwi gan y Clerc ac yn cael ei llofnodi gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol erbyn 30 Mehefin 2014.

**Anfonebau:**

(I) Cafwyd anfoneb am y swm o £172.90 gan Llinos Jones am y gwasanaeth cyfieithu ym mis Mawrth a derbyniwyd y dylid ei thalu.
(ii) Cafwyd anfoneb am y swm o £1,025.00 gan y Greenhouse am gynnal a chadw'r gwaith plannu yn Stryd y Brenin ac wrth ymyl y mynediad i'r Pwll Nofio yn ystod 2013-2014 a derbyniwyd y dylid ei thalu.
(iii) Cafwyd anfoneb am y swm o £384.00 gan Cliand Computers Limited am beiriant Argraffu/Sganio/Copïo Epson a chetris inc, a derbyniwyd y dylid ei thalu.

7.**Diweddariad am y Wefan** – cafwyd y grant o £500.00 gan Gyngor Sir Ceredigion.

8.**Llochesau Bysiau** – Cafwyd dyfynbrisiau gan Abacus am wneud gwaith amrywiol i lochesau bysiau ym Mwlch-y-groes (£89.00), Maesymeillion (£128.00) a'r Ffawydd (£241.00).
Penderfynwyd derbyn y dyfynbrisiau a gofyn i Abacus gyflawni'r gwaith.

9.**Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru** – bydd Cyng Andrew Howell yn darllen y ddogfen ac yn adrodd yn ôl amdani yn ystod y cyfarfod nesaf.

10.**Presenoldeb mewn Cyfarfodydd** - Darllenodd Cyng Tom Cowcher ddarnau o ddogfen argraffedig, a chyfeiriodd at gofrestr presenoldeb a ddarparwyd gan y Clerc. Roedd Cyng Rhiannon Ainsworth wedi bod yn absennol o nifer o gyfarfodydd ond mae bellach wedi ymddiswyddo; roedd Cyng Beth Davies wedi bod yn absennol o bob cyfarfod ac eithrio un yn ystod y flwyddyn ddiwethaf - atgoffwyd Cyng Davies gan Gyng Tom Cowcher o bwysigrwydd mynychu cyfarfodydd, er bod ei gwaith yn y gymuned yn sylweddol; roedd Cyng Eileen Curry wedi bod yn absennol o oddeutu hanner y cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o ganlyniad i ymrwymiadau gwaith, ond roedd bob amser wedi ymddiheuro cyn y cyfarfodydd, gan wneud yn siŵr ei bod yn cyfleu ei sylwadau i'r Clerc pan fo hynny'n berthnasol ynghylch unrhyw negeseuon e-bost a ddosbarthwyd neu faterion i'w trafod yn ystod y cyfarfodydd.

11.**Dolen Teifi** – nododd Cyng Tom Cowcher bod Dolen Teifi wedi llwyddo i sicrhau bron i

£250,000 gan y Loteri Fawr.  Llongyfarchwyd Cyng Cowcher gan y Cynghorwyr am sicrhau'r grant sylweddol.

(Gadawodd Cynghorwyr Sir Peter Davies a Peter Evans y Cyfarfod cyn y trafodwyd y materion Cynllunio a nodir isod)

**12.Cynllunio:**

Cafwyd hysbysiad o Gyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygiad i'w gynnal ar 9-4-14.

Archwiliwyd y cynlluniau canlynol ac ni wnaethpwyd unrhyw wrthwynebiadau iddynt:

A140174 – Iard Goffa Pren-gwyn – Adeiladu adeilad newydd/cyfnewid a gwella'r mynediad

A140179 – Awel Teifi, Stryd Ffynnon – Disodli ffens pren

A140124 – Llain gerllaw Capel Bethel, Capel Dewi – Adeiladu Annedd

A140194 – Ysgol Capel Dewi, Capel Dewi – Newid defnydd o gyn ysgol i fod yn annedd preswyl a gwaith cysylltiedig

A140153 – 9 Stryd Lincoln – Newid defnydd o A2 i A1 a C3

A140129 – Tir gyferbyn â Meinigwynion Bach, Talgarreg – Adeiladu annedd menter gwledig a'r tai allan cysylltiedig

A140123 – Moelgarnog, Rhydowen – Cael gwared ar amod 5 o gais A120635

Cafwyd hysbysiad bod y caniatâd cynllunio wedi cael ei dynnu yn ôl ar gyfer y canlynol:

A130953 – Cwmgyfeile, Tre-groes – Adeiladu tyrbin gwynt

A130876 – Moelgarnog, Rhydowen – Adeiladu tyrbin gwynt

Cafwyd hysbysiad bod caniatâd cynllunio wedi cael ei wrthod ar gyfer y canlynol:

A130748 – Maesnewydd, Rhydowen  – Adeiladu tyrbin gwynt